# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1421(FM) a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ar ran Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At Jocelyn Davies:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mawrth 2006, bu ichi ofyn cwestiwn atodol i OAQ1421 i’r Prif Weinidog ynghylch a ellid gwneud cloddio glo brig yn broses niwtral o ran carbon yng Nghymru drwy blannu coed? Gofynnwyd i mi roi ateb i chi.

Mae posibilrwydd i atafaelu carbon i wneud iawn am allyriadau carbon drwy blannu coed a fforestydd a gwnaethpwyd peth ymchwil ar hyn. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd yn parhau ynghylch hynny. Er mwyn canfod a ellir gwneud cloddio glo brig yn broses niwtral byddai’n rhaid i ni sefydlu beth yw lefel yr allyriadau o garbon deuocsid o’r sector hwn.

Mae’r Ganolfan Dechnoleg Amgylcheddol Genedlaethol yn llunio rhestrau o nwyon tŷ gwydr ar ran yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a’r sefydliadau datganoledig. Mae’n cadw rhywfaint o wybodaeth ar allyriadau methan o’r sector hwn, ond mae’n dweud nad oes data ar gael ar gyfer allyriadau carbon deuocsid o gloddio glo brig yng Nghymru. Byddai’r allyriadau hyn yn cael eu creu, gan mwyaf, o ganlyniad i losgi tanwydd a ddefnyddir gan beiriannau oddi ar y ffordd a thrafnidiaeth (olew nwy, olew tanwydd).

Mae’n anodd cael hyd i ddata arwyddocaol ar hyn, ond bydd fy swyddogion yn ystyried hyn ymhellach er mwyn gweld a gyhoeddwyd unrhyw ymchwil mwy diweddar neu a wnaethpwyd unrhyw waith ychwanegol yn y maes hwn. Gall datblygiad y system restru olygu y bydd mwy o wybodaeth ar gael yn y dyfodol.

Ysgrifennaf atoch maes o law os daw unrhyw ddata arwyddocaol i law.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1422 (FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At Dai Lloyd:**

Yn ystod cwestiynau i’r Prif Weinidog ar 28 Mawrth codasoch gwestiwn yn gofyn am fy marn ar ynni modurol a gynhyrchir gan harneisio’r ‘sgilwynt’ a grëir gan gerbydau modur drwy ddefnyddio tyrbinau gwynt bach yn y llain ganol ar draffyrdd. Deallaf eich bod hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ar 6 Mawrth ynghylch cysyniad gan Mr David Montanari i harneisio ynni sgilwynt.

Mae ynni modurol yng Nghymru yn dal i fod mewn cyfnod cynnar iawn, ac oherwydd nad oes unrhyw dystiolaeth swyddogol wedi ei chyhoeddi eto, mae’n rhy gynnar imi wneud sylwadau ar ei botensial. Wrth gwrs, mae nifer o faterion y bydd angen rhoi ystyriaeth bellach iddynt cyn y gellir dod i unrhyw gasgliadau. Ymhlith y rhain y mae goblygiadau’r dechnoleg ar gyfer traffig, diogelwch ar y ffyrdd a chynnal a chadw.

Rwyf yn deall bod Mr Montanari ar hyn o bryd mewn trafodaethau gyda gwahanol adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy’n rhoi arweiniad a chymorth iddo, ac rwy’n dymuno pob llwyddiant iddo wrth ddatblygu ei gynigion.